*This document is available in English*

| **Adroddiad er gwybodaeth** | |
|---|---|
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2020 – Mehefin 2020 - Chwarter 1** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant a gweithgareddau nodedig arall o ran digwyddiadau.

**CRYNODEB**

2 Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21, parhaodd y Deyrnas Unedig mewn 'cyfnod clo' o ganlyniad i bandemig Covid-19, gyda mesurau'n bodoli i gyfyngu ar symudiadau pobl er mwyn lleihau lledaeniad y feirws. Roedd y cyfyngiadau ar deithiau nad oeddent yn hanfodol wedi parhau ledled Cymru tan 6 Gorffennaf, ac mewn nifer o siroedd roedd y canolfannau ailgylchu wedi cau a'r casgliadau ar gyfer gwastraff gardd oddi ar ymyl y ffordd wedi cael eu hatal yn ystod Ebrill a Mai.

3 **Yr holl ddigwyddiadau** – Yn ystod y chwarter cyntaf, aeth y Gwasanaeth at 1,381 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen – sef 4% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2019/20.

4 **Tanau** – Aethpwyd at gyfanswm o 656 o danau yn ystod y chwarter cyntaf, sef cynnydd o 12% o gymharu â'r un chwarter y llynedd a mwy nag yn unrhyw chwarter cyntaf ers 2016/17. Fe wnaeth presenoldeb mewn tanau eilaidd damweiniol gynyddu 94% (o 151 o danau i 293 o danau), llawer ohonynt o ganlyniad i drigolion yn llosgi sbwriel a gwastraff gardd mewn gerddi preifat.

5 **Prif danau** – Cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn cerbydau yn ystod y chwarter cyntaf, gan olygu bod nifer gyffredinol y prif danau wedi aros i lawr a bod y tueddiad cyffredinol am i lawr wedi parhau. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn nifer y tanau mewn cartrefi ac adeiladau amhreswyl.

6 **Prif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl** – Fe wnaeth y rhain gynyddu i 21 yn ystod y chwarter cyntaf, a digwyddodd 16 ohonynt yng Ngharchar Berwyn. Yn yr un cyfnod y llynedd, aeth y Gwasanaeth at 17 o danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, ac roedd 11 ohonynt yn y carchar.

7 **Galwadau diangen** – Aethpwyd at gyfanswm o 627 o alwadau diangen yn ystod y chwarter cyntaf, 9% yn fwy nag yn yr un chwarter y llynedd a mwy nag yn yr un chwarter ers 2016/17. Mae'r tueddiad bach am i fyny yn nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig didwyll wedi parhau, ond fe wnaeth y galwadau diangen didwyll gynyddu 20% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 26% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd ddiwethaf.

8 **Digwyddiadau gwasanaeth arbennig** – Aeth y Gwasanaeth at 73 yn llai o ddigwyddiadau (43%) yn ystod y chwarter cyntaf yn 2020/21 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gan fod llai o deithiau ar y ffyrdd yn ystod y 'cyfnod clo' fe wnaeth nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ostwng bron i 70%, sef o 53 o ddigwyddiadau yn y chwarter cyntaf yn 2019/20 i ddim ond 17 o ddigwyddiadau yn y chwarter cyntaf eleni.

9 **Tanau damweiniol mewn cartref** – Aeth y Gwasanaeth at 104 o danau damweiniol mewn cartrefi, sef lefel debyg i'r chwarter cyntaf yn 2016/17 (103 o danau). Cofnodwyd tair marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y chwarter cyntaf, a chafodd 9 o bobl fân anafiadau. Ni chofnodwyd unrhyw anafiadau difrifol yn ystod y cyfnod.

10 **Archwiliadau Diogel ac Iach** – Cynhaliwyd 3,551 o archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod, ac roedd 1,099 (31%) o'r rheini wedi digwydd o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni.

11 **Yr holl danau mewn cartrefi –** Roedd larymau mwg/gwres ar gael mewn 84% o danau mewn cartrefi, ac roedd 83% o danau mewn cartrefi wedi'i cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn neu lle aeth yr eitem ar dân i ddechrau, neu a arweiniodd at ddifrod oherwydd gwres/mwg yn unig.

**ARGYMHELLIAD**

12 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

13 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r aelodau, mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2020 (Chwarter 1).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yng nghynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2020/21. |
| Cyllideb | Mae'n cynorthwyo i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o weithgarwch mewn digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion sydd arno oherwydd newidiadau mewn gwaith ar gyfer digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## Y Chwarter Cyntaf

## Ebrill 2020 – Mehefin 2020


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i'w newid.**

**CYNNWYS**


| ADRODD YNGHYLCH GWAITH DIGWYDDIADAU | |
|---|---|
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl y math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS Â GWELLA A LLESIANT - AMCAN A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Gweithrediad Larymau Mwg | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Yn ystod y chwarter cyntaf, aeth y Gwasanaeth at 1,381 o ddigwyddiadau brys, sef 4% yn fwy na'r un cyfnod yn 2019/20.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2020-21 | 1,381 | | | | 1,381 | ↑ 3.8% | 1,446 | ↓ 4.5% |
| | 2019-20 | 1,330 | | | | 1,330 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2020-21 | 656 | | | | 656 | ↑ 11.9% | 623 | ↑ 5.3% |
| | 2019-20 | 586 | | | | 586 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 98 | | | | 98 | ↓ 42.7% | 270 | ↓ 63.7% |
| | 2019-20 | 171 | | | | 171 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 627 | | | | 627 | ↑ 9.4% | 553 | ↑ 13.4% |
| | 2019-20 | 573 | | | | 573 | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | |

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** cafwyd gostyngiad cyson yn nifer gyffredinol y prif danau bob blwyddyn. Yn 2020/21,'Adeiladau', ac yna 'Cerbydau Ffyrdd' oedd y mathau cyffredinol o eiddo lle cafwyd y rhan fwyaf o brif danau, sef 65% a 30% ar gyfartaledd yn eu trefn, gyda'r gweddill yn rhai 'Awyr Agored'.

2.2 **Tanau eilaidd –** mae nifer y tanau hyn yn amrywio bob blwyddyn oherwydd mae'r tywydd yn cael effaith sylweddol ar faint ohonynt sy'n digwydd; mae'r rhan fwyaf o danau eilaidd (dros 90%) wedi digwydd mewn mathau o eiddo 'Awyr Agored'.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd ddiwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2020-21 | 224 | | | | 224 | ↓ 5.9% | 244 | ↓ 8.2% |
| | 2019-20 | 238 | | | | 238 | | | |
| Tanau eilaidd | 2020-21 | 397 | | | | 397 | ↑ 24.5% | 351 | ↑ 13.1% |
| | 2019-20 | 319 | | | | 319 | | | |
| Tanau simnai | 2020-21 | 35 | | | | 35 | ↑ 20.7% | 28 | ↑ 25.0% |
| | 2019-20 | 29 | | | | 29 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

### 3.0 Prif danau, yn ôl y Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Cafodd 21 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 16 ohonynt yn digwydd yng Ngharchar Berwyn o gymharu ag 11 y flwyddyn flaenorol. Yn yr un cyfnod y llynedd, aeth y Gwasanaeth at 17 o danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, ac roedd 11 o'r rheini yn y carchar.




| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Categori Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2020-21 | 42 | | | | 42 | ↓ 2.3% | 50 | ↓ 16.0% |
| | 2019-20 | 43 | | | | 43 | | | |
| Yr holl danau damweiniol | 2020-21 | 182 | | | | 182 | ↓ 6.7% | 194 | ↓ 6.2% |
| | 2019-20 | 195 | | | | 195 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 Aethpwyd at 627 o alwadau diangen yn ystod y chwarter cyntaf, sef 9% yn fwy nag yr aethpwyd atynt yn yr un chwarter y llynedd a mwy nag yn unrhyw chwarter cyntaf ers 2016/17. Mae'r tueddiad bach am i fyny yn nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig wedi parhau, tra gwnaeth nifer y galwadau diangen didwyll gynyddu 20% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 627 | | | | 627 | ↑ 9.4% | 553 | ↑ 13.4% |
| | 2019-20 | 573 | | | | 573 | | | |
| Larymau tân awtomatig | 2020-21 | 282 | | | | 282 | ↓ 2% | 282 | → 0.0% |
| | 2019-20 | 288 | | | | 288 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2020-21 | 328 | | | | 328 | ↑ 20.1% | 261 | ↑ 25.7% |
| | 2019-20 | 273 | | | | 273 | | | |
| Maleisus | 2020-21 | 17 | | | | 17 | ↑ 41.7% | 10 | ↑ 70.0% |
| | 2019-20 | 12 | | | | 12 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Aeth y Gwasanaeth at 73 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (43%) yn ystod chwarter cyntaf 2020/21 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| GTFf | 48 | 42 | 43 | 53 | 17 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 116 | 99 | 104 | 103 | 69 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol) | 18 | 212 | 120 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 0 | 8 | 11 | 15 | 12 |

| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiad-au gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 98 | | | | 98 | ↓ 42.7% | 270 | ↓ 63.7% |
| | 2019-20 | 171 | | | | 171 | | | |
| Gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 17 | | | | 17 | ↓ 67.9% | 46 | ↓ 63.0% |
| | 2019-20 | 53 | | | | 53 | | | |
| Heblaw gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 81 | | | | 81 | ↓ 31.4% | 224 | ↓ 63.8% |
| | 2019-20 | 118 | | | | 118 | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | |

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 Gan fod llai o deithiau wedi cael eu gwneud ar y ffyrdd yn ystod y 'cyfnod clo', fe wnaeth nyfer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt ostwng bron 70%, sef o 53 o ddigwyddiadau yn chwarter cyntaf 2019/20 i ddim ond 17 o ddigwyddiadau yn y chwarter cyntaf eleni.




**17** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd

**8** o ddigwyddiadau pryd cafodd pobl anaf

**6** o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid tynnu pobl allan / eu rhyddhau

| Difrifoldeb yr Anaf* | Nifer y Bobl |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 2 |
| Cymorth Cyntaf | 0 |
| Mân anafiadau | 8 |
| Anafiadau difrifol | 2 |
| Marwolaeth | 0 |

**Cofnodir anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar ffyrdd – pan ydynt ar gael – yn yr IRS yn yr un categorïau ag anafiadau tân.*

**7.0 Monitro mewn perthynas ag Amcan Gwella a Llesiant - A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Aeth y Gwasanaeth at 104 i danau damweiniol mewn cartrefi, sef lefel debyg i'r chwarter cyntaf yn 2016/17 (103 o danau damweiniol mewn cartrefi).




| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 104 | | | | 104 | ↑ 6.1% | | 90 | ↑ 15.6% |
| | 2019-20 | 98 | | | | 98 | | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | | |

## 8.0 Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

8.1 Cofnodwyd tair marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y chwarter cyntaf, a chafodd 9 o bobl fân anafiadau. Ni chofnodwyd unrhyw anafiadau difrifol yn ystod y cyfnod.


| Difrifoldeb yr anaf | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad rhagofalus | 17 | 5 | 5 | 7 | 11 |
| Cymorth cyntaf | 4 | 5 | 7 | 13 | 6 |
| Mân anafiadau | 2 | 13 | 7 | 10 | 9 |
| Anafiadau difrifol | 2 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Marwolaeth | 1 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 26 | 25 | 21 | 33 | 29 |

| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 26 | | | | 26 | ↓ 6 |
| | 2019-20 | 32 | | | | 32 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 3 | | | | 3 | ↑ 2 |
| | 2019-20 | 1 | | | | 1 | |

| Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|
| 25 | ↑ 1 |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Cynhaliwyd 3,551 o archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod, ac roedd 1,099 (30%) o'r rheini wedi digwydd o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni.




| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a atgyfeiriwyd gan sefydliad sy'n bartner i ni | 2020-21 | 30% | | | | | ↓ 6pp | 30% | ➔ 0pp |
| | 2019-20 | 36% | | | | | | | |
| Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl. | | | | | | | | | |

## 10.0 Larymau mwg

10.1 Roedd larymau mwg/gwres ar gael yn y rhan fwyaf o danau mewn cartrefi (84% / 92 fires) yn ystod y chwarter yn 2020/21, er na chanodd pob un; mewn 17 o danau mewn cartrefi (16%), nid oedd unrhyw larwm yno.

10.2 Cafodd 83% o'r holl danau mewn cartrefi eu cyfyngu (i'r ystafell lle cychwynnodd, neu lle aeth yr eitem ar dân i ddechrau, neu lle roedd difrod oherwydd gwres/mwg yn unig).

- Mewn tanau mewn cartrefi lle roedd larwm yno ac wedi rhoi rhybudd, cafodd 94% o'r tanau hyn eu cyfyngu.
- Mewn tanau mewn cartrefi lle nad oedd unrhyw larwm, 59% o'r tanau hyn a gafodd eu cyfyngu.

| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno, wedi canu ac wedi rhoi rhybudd | 2020-21 | 50 | | | | 50 | ↓ 9.1% | 43 | ↑ 16.3% |
| | 2019-20 | 55 | | | | 55 | | | |
| Larwm mwg heb ganu | 2020-21 | 23 | | | | 23 | ↑ 27.8% | 21 | ↑ 9.5% |
| | 2019-20 | 18 | | | | 18 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi canu ond heb roi rhybudd | 2020-21 | 19 | | | | 19 | ↓ 13.6% | 21 | ↓ 9.5% |
| | 2019-20 | 22 | | | | 22 | | | |
| Dim larwm mwg yno | 2020-21 | 17 | | | | 17 | ↑ 41.7% | 14 | ↑ 21.4% |
| | 2019-20 | 12 | | | | 12 | | | |

Mae cymariaethau gyda'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd i'w gweld yn y golofn dde yn y tabl.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |